



Y CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE PECYN CYMORTH CYFLWYNIAD I GYFLOGWYR



Am ragor o wybodaeth ar Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, yn cynnwys y gefnogaeth sydd ar gael, ewch i [gov.uk/eu-settled-status](https://www.gov.uk/eu-settled-status)

BETH MAE'R

CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE YN EI OLYGU I GYFLOGWYR?

O ystyried cyfraniad gwerthfawr dinasyddion yr UE¹ i fusnesau a sefydliadau ar draws y Deyrnas Unedig, efallai yr hoffai cyflogwyr gyfathrebu gyda'u staff o'r UE am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae'r wybodaeth isod yn sefydlu eich ymrwymadau fel cyflogwr.

- **Cyfrifoldeb yr unigolyn** yw gwneud cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Nid oes gofyniad i'r unigolyn eich hysbysu chi, fel cyflogwr, ei fod neu ei bod wedi ymgeisio na chanlyniad y cais. Felly hefyd, nid yw'n ofynnol i chi wirio fod cyflogai wedi ymgeisio.
- Mae gennych **ddyletswydd i beidio gwahaniaethau yn erbyn dinasyddion yr UE** o ganlyniad i benderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr UE fel darpar gyflogwr a chyflogwr presennol. Ni allwch gynnig cyflogaeth, neu barhad cyflogaeth, yn amodol ar unigolyn yn gwneud cais.
- **Mae gwiriadau 'hawl i weithio' presennol (e.e. pasbort ac/neu gerdyn adnabod cenedlaethol) yn berthnasol tan ddiwedd 2020.** Gall dinasyddion yr UE hefyd roi tystiolaeth o'u hawl i weithio yn defnyddio'r gwasanaeth hawl i weithio ar-lein, os byddant yn dewis gwneud hynny. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad i arddangos eu hawl i weithio fel hyn.
- Ni fydd yna **unrhyw newid i hawliau a statws dinasyddion yr UE** yn byw yn y Deyrnas Unedig tan 30 Mehefin 2021².
- **Ni fydd gofyn i chi gyflawni gwiriadau ôl-weithredol** ar gyflogaeth presennol o'r UE pan fydd y Deyrnas Unedig yn trosi i system mewnfudo seiliedig ar sgiliau yn y dyfodol.
- Does yna **ddim gofyniad cyfreithiol i chi gyfathrebu** y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, fodd bynnag, efallai yr hoffech gyfeirio at yr wybodaeth mae'r Llywodraeth yn ei darparu.
- **Ni ddylech ddehongli gwybodaeth** a ddarperir gan y Llywodraeth a rhaid i chi fod yn ofalus i beidio cynnig cyngor ar fewnfudo, oni bai eich bod yn gymwys i wneud hynny. Am ragor o wybodaeth, darllenwch ganllaw Swyddfa Comisiynydd y Gwasanaethau Mewnfudo (OISC) ar **GOV.UK**.



Ceir arweiniad ar y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar gov.uk/eu-settled-status.




¹ Defnyddir dinasyddion yr UE drwyddo draw i gyfeirio at ddinasyddion yr AEE a'r Swistir, sydd oll yn gymwys i ymgeisio i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

² Neu 31 Rhagfyr 2020, os na fydd cytundeb.

BETH MAE'R

PECYN CYMORTH HWN YN EI GYNNWYS?

Rydym wedi darparu awgrymiadau ar sut allwch chi ddefnyddio'r deunydd cyfathrebu yn y pecyn cymorth hwn. Gellir lawrlwytho'r deunyddiau hyn o [GOV.UK](https://www.gov.uk).

Eitem pecyn cymorth 	Diben 	Defnydd a argymhellir 
<p>Cyflwyniad y pecyn cymorth i gyflogwyr (y ddogfen hon)</p>	<p>Yn eich helpu i ddefnyddio deunyddiau'r pecyn cymorth i gyflogwyr.</p>	<p>Er gwybodaeth i gyflogwyr yn unig. Gellir rhannu hyn gydag arweinyddiaeth / AD.</p>
<p>Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: Gwybodaeth briffio</p>	<p>Yn darparu gwybodaeth allweddol am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn cynnwys manylion y cais.</p>	<p>Defnyddiwch mewn cyflwyniadau neu weminarau am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i arweinyddiaeth, AD, rheolwyr llinell dinasyddion yr UE a dinasyddion yr UE eu hunain.</p>
<p>Taflenni:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth bwysig Y cais 	<p>Yn darparu gwybodaeth allweddol am y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a manylion sut i ymgeisio.</p>	<p>Dosbarthu dogfennau trwy ollwng ar ddesgiau neu yn eich ardal gyffredinol. Rhannu trwy e-bost neu gynnwys yn eich cylchlythyrau.</p>
<p>Poster</p>	<p>Codi ymwybyddiaeth am ddyddiadau a gweithredoedd pwysig.</p>	<p>Arddangos mewn ardaloedd cyffredinol yn eich sefydliad. Uwchlwytho i byrth ar-lein neu rannu trwy e-bost.</p>
<p>Taflenni ffeithiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Trosolwg y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE³ Y cais Gwiriad hunaniaeth Cefnogaeth ar gael 	<p>Yn darparu gwybodaeth allweddol ac yn amlinellu'r llwybrau ymgeisio a chefnogaeth ar gyfer ymgeisio i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.</p>	<p>Arddangoswch mewn ardaloedd cyffredinol a chyhoeddus yn eich sefydliad, rhannwch gyda phartneriaid lleol a dosbarthu mewn digwyddiadau cymunedol a chanolfannau galw i mewn lleol.</p>
<p>Asedau digidol a chyfryngau cymdeithasol (e.e. animeiddio a straeon dinasyddion yr UE)</p>	<p>Yn codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth allweddol yn cynnwys sut i wneud cais a fideos o straeon dinasyddion yr UE.</p>	<p>Uwchlwythwch i byrth mewnol, rhannwch trwy e-bost ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter a LinkedIn).</p>

³ Mae'r ddalen ffeithiau hon wedi ei chyfieithu i bob un o 23 o ieithoedd yr UE, yn ogystal â Norwyeg ac Islandeg. Mae'r ddalen ffeithiau hon wedi ei chyfieithu i bob un o 23 o ieithoedd yr UE, yn ogystal â Norwyeg ac Islandeg.

BLE I DROI AM RAGOR O WYBODAETH?

Mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu nifer o ffrydiau i chi gael mynediad at wybodaeth ynghylch y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE:



Mynediad at arweiniad y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar gov.uk/eu-settled-status.



Gweld y pecyn cymorth i gyflogwyr ar [GOV.UK](https://gov.uk) i lawrlwytho deunyddiau cyfathrebu i'w rhannu gyda'ch cyflogeion sy'n ddinasyddion yr UE.



Cyfeirio eich cyflogeion at y dudalen cychwyn cais: gov.uk/apply-eu-settled-status.

archived